

ASTUDIAETH ACHOS: RHWYFO CYMRU

Author: Amanda Bennett, FairPlay Ltd

*sportwales
chwaraeoncymsu*



Rhwyfo Cymru yw'r Corff Rheoli Cenedlaethol ar gyfer rhwyfo (ar afonydd, yn y môr a dan do) yng Nghymru.

Mae Rhwyfo Cymru yn gweithio gyda Chwaraeon Cymru i godi ymwybyddiaeth o rwyfo ledled Cymru ac i gynyddu'r cyfranogiad ynddo, yn ogystal â cheisio datblygu athletwyr ar gyfer sgwadiau Prydain Fawr.

Mae Rhwyfo Cymru wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i lywodraethu da ac

mae bob amser yn ceisio gwella er mwyn bod yn gorff rheoli chwaraeon cynaliadwy sy'n perfformio ar lefel uchel. Mae sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg yn dda ac yn addas i bwrpas fel Corff Rheoli modern yn hanfodol i sicrhau arian cyhoeddus parhaus ac i greu ffynonellau ychwanegol o reffeniw.

Hefyd mae Rhwyfo Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb a chynhwysiant yn ei holl arferion, gan gynnwys recriwtio a phenodi i'r Bwrdd.



PAM OEDD RAID I CHI NEWID STRWYTHUR EICH BWRDD?

Yn 2014, aethom ati i symud oddi wrth gynrychiolaeth clwb ar y Bwrdd, am nad oedd hyn yn rhoi corff gwneud penderfyniadau cydlynol i ni, gyda phob person yn wynebu gwrthdaro o ran ffyddlondeb a thrafodaethau'n canolbwyntio ar fanteision neu golledion i'w grwpiau penodol hwy.

Nid oedd y cyfarwyddwyr yn gallu gofyn cwestiynau swyddogion gweithredol a fyddai'n herio'n adeiladol ac yn ychwanegu gwerth at gynigion. Roedd ffocws ar faterion gweithredol, yn benodol, clybiau a digwyddiadau rhwyfo, gyda gwybodaeth gyfyngedig am faterion busnes neu sut i sbarduno strategaeth. Er bod y gymuned rwyfo'n gyfforddus gyda rhwyfwyr ar y Bwrdd, nid oedd hyn o angenrheidrwydd yn golygu bod arweinyddiaeth y corff rheoli'n gytbwys nac yn fedrus yn yr holl feysydd gofynnol, gan gynnwys cyllid, cyfathrebu a llywodraethu.

Nid oedd gan y Bwrdd amrywiaeth meddwl a hefyd roedd yn adlewyrchu barn am y gamp fel camp i unigolion gwyn wedi derbyn addysg breifat. Roedd ni eisiau symud oddi wrth stereoteipiau a hybu camp lawer mwy amrywiol a chynhwysol.

Roedd ni'n sylweddoli bod aelodau'r Bwrdd yn ymroddedig i rwyfo ac yn teimlo'n angerddol am y gamp, ond roedd rhaid i ni newid cyfansoddiad y Bwrdd os oeddem am greu dyfodol llwyddiannus.



**ROEDDEN NI
EISIAU SYMUD
ODDI WRTH
STEREOTEIPIAU
A HYBU CAMP
LAWER MWY
AMRYWIOL A
CHYNHWYSOL.**





WE EXPENDED A LOT OF TIME AND ENERGY CONSULTING WITH THE ROWING COMMUNITY, AS WE DID NOT WANT THEM TO FEEL CHANGES WERE BEING MADE WITHOUT THEIR INVOLVEMENT.

SUT AETHOCH CHI ATI I WNEUD Y NEWIDIADAU HYN?

Erbyn 2014, roedden ni'n sylweddoli bod rhaid i ni greu Bwrdd seiliedig ar sgiliau ac aethom ati i addasu ein Herthyglau Cwmni er mwyn galluogi i hyn ddigwydd. Mae'r Erthyglau'n nodi'r canlynol:

- Bydd y Bwrdd yn gweithredu proses recriwtio wrthrychol er mwyn canfod ymgeiswyr a chyfarwyddwyr addas ar gyfer y Cwmni
- Y nod fydd denu o leiaf 50% o ymgeiswyr o'r fath o'r gymuned rwyfo yng Nghymru a'r ymgeiswyr sy'n weddill o'r tu allan i'r gymuned rwyfo yng Nghymru er mwyn annog Bwrdd gwrthrychol, cytbwys a medrus.
- Efallai y caiff panel recriwtio ei sefydlu gan y Bwrdd presennol er mwyn canfod ymgeiswyr.
- Bydd pob lle ar y Bwrdd yn cael ei hysbysebu a bydd proses o lunio rhestr fer a chyfweliad yn cael ei rhoi ar waith.

Yr aelodau fydd yn cael y gair olaf am benodiadau'r Bwrdd o hyd, sy'n bwysig, gan eu bod yn teimlo'n gysylltiedig â dewis arweinwyr y corff rheoli, ac yn rhan o hynny. Pan maent yn pleidleisio yn y CCB, bydd gan yr aelodau fwy o hyder yn yr ymgeiswyr sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer etholiadau, gan eu bod wedi bod drwy broses recriwtio fanwl a thryloyw yn gyntaf. Hefyd rydyn ni wedi cael gwared ar y posibilrwydd o Gyfarwyddwyr yn wynebu gwrthdaro ffyddlondeb fel Cynrychiolwyr a Enwebir (unigolion a enwebir gan eu clybiau i bleidleisio yn y CCB) – rhaid iddynt ymddiswyddo o'r swydd hon os ydynt eisiau cael eu penodi i'r Bwrdd.

Fe wnaethom dreulio llawer o amser yn ymgynghori â'r gymuned rwyfo am nad oeddem eisiau iddynt deimlo bod newidiadau'n cael eu gwneud heb eu cynnwys hwy. Roedd yn bwysig sicrhau eu bod yn deall ac yn ymrwmo i'r strwythurau newydd os oeddent

yn mynd i weithio i bawb. Er bod angen llawer o ymdrech gyda hyn, roedd yn amser a dreulwyd yn dda gan fod y newidiadau cyfansoddiadol wedi cael eu cymeradwyo.

Rydyn ni wedi creu rhestr o sgiliau blaenoriaeth ac wedi cynnal archwiliad sgiliau fel ein bod yn gwybod beth yw cryfderau ein Bwrdd a hefyd pa fylchau mewn sgiliau neu wybodaeth sydd angen eu llenwi pan fydd llefydd gwag yn dod ar gael. Gallwn gynllunio ar gyfer penodiadau Bwrdd gyda hyder cymharol gan ein bod hefyd wedi cyflwyno tymhorau gwasanaethu a chyfyngiadau ar dymhorau yn yr Erthyglau newydd. Ni chaiff unrhyw Gyfarwyddwr wasanaethu am fwy na dau dymor yn olynol o dair blynedd, felly rydyn ni'n gallu newid y Bwrdd yn rheolaidd i gael y sgiliau y mae arnom eu hangen bryd hynny. Mae'r disgrifiad rôl a manyleb y person yn cael eu hadolygu'n gyson fel ein bod yn gallu bod yn benodol am ein blaenoriaethau wrth hysbysebu.

Hefyd rydyn ni'n cynnal archwiliad amrywiaeth yn gyson fel bod gennym ni ddealltwriaeth dda o broffil ein Bwrdd ac i ba raddau y mae'n darparu gwybodaeth allweddol ac yn adlewyrchu ein dyheadau ar gyfer y gamp, h.y. ehangu mynediad i rwyfo.

Wrth hysbysebu, rydyn ni'n ceisio bod mor agored, creadigol a chynhwysol â phosib. Rydyn ni'n hysbysebu drwy'r Sport and Recreation Alliance ac UK Sport, ond rydyn ni wedi cynnwys Chwarae Teg ac Acorn Recruitment hefyd. Rydyn ni'n defnyddio ein holl sianelau ar gyfryngau cymdeithasol i gysylltu â phartneriaid a rhwydweithiau ehangach er mwyn annog pobl o bob cefndir a sector i ystyried gwneud cais. Yn benodol, rydyn ni'n crybwyll yn ein holl hysbysebion ein bod yn annog ac yn croesawu ceisiadau gan grwpiau a dangynrychiolir, er enghraifft, pobl o gymunedau DALIE.



WE WILL ACTIVELY WORK TOWARDS A MINIMUM OF 40% FEMALE/MALE, AS WE BELIEVE THIS WILL ADD TO BOARD PERFORMANCE.

PA WAHANIAETH MAE'R NEWIDIADAU HYN WEDI'U GWNEUD I'CH BWRDD?

I ddechrau, mae'r trafod, y cwestiynau a'r penderfyniadau yn y Bwrdd o ansawdd llawer uwch. Mae aelodau'r Bwrdd yn llawer llai gweithredol, nid ydynt yn ymyrryd â staff a nawr maent yn gofyn cwestiynau na fyddai aelodau blaenorol y Bwrdd wedi meddwl amdanynt. Mae'r Cyfarwyddwyr yn llawer mwy strategol a chysniadol eu ffordd o feddwl yn awr, ac yn mynegi mwy o farn, a'r cyfan yn creu amgylchedd mwy deinamig ar gyfer gwneud penderfyniadau tymor hir.

Ar yr achlysuron prin pan mae'n ymddangos bod Cyfarwyddwr yn cynrychioli clwb neu ddisgyblaeth rwyfo, mae mwy o herio gweladwy ar wrthdaro posib. Yn y gorffennol, byddai hyn wedi cael digwydd heb unrhyw her, a byddai'r Cyfarwyddwyr wedi parhau i warchod eu meysydd chwaraeon eu hunain.


O ran proffil, erbyn hyn mae gennym ni Fwrdd sydd â 30% o ferched, 10% o DALIE a phobl o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol ac addysgol. Byddwn yn gweithio tuag at isafswm o 40% benyw/gwryw, oherwydd rydyn ni'n credu y bydd hyn yn ychwanegu at berfformiad y Bwrdd.

PA EFFAITH MAE STRWYTHUR NEWYDD Y BWRDD WEDI'I CHAEL AR Y SEFYDLIAD?

Hefyd, rydyn ni wedi gweld, drwy gyflwyno asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb i'r Bwrdd, eu bod yn ymwneud llawer mwy â materion cydraddoldeb ar draws y sefydliad cyfan, o'r gweithlu i'r rhaglenni rhwyfo, a bod ganddynt fwy o wybodaeth yn eu cylch. Mae hyn yn cryfhau ein strategaethau cynhwysiant a hefyd yn golygu bod ein Bwrdd yn parhau i ddysgu a datblygu.

Mae'r perthnasoedd gyda'r staff yn broffesiynol ac yn gefnogol, gyda'r Cyfarwyddwyr yn cynnig arbenigedd a syniadau, ond heb ymyrryd â'r manylion gweithredol y mae'r aelodau o staff yn rhoi sylw iddynt o ddydd i ddydd. Mae ein hadolygiad rheolaidd o'r strategaeth, o gyfansoddiad y Bwrdd ac o'r recriwtio'n golygu ein bod yn gallu addasu penodiadau Cyfarwyddwyr i weddu i'n blaenoriaethau.

Yn gyffredinol, mae perfformiad y Bwrdd a'r sefydliad wedi gwella'n sylweddol ond eto rydyn ni'n deall bod hon yn broses barhaus. Bydd gweithgareddau dysgu a datblygu'r Bwrdd yn parhau, a byddwn yn goruchwyllo sgiliau, amrywiaeth a gwybodaeth ein Bwrdd yn gyson.



sportwales
chwaraeoncymsu

SPORT WALES

Sophia Gardens, Cardiff CF11 9SW

☎ 029 2033 4972

✉ 0300 300 3111

🌐 www.sport.wales